



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Stradey Park House

**61 New Road
Llanelli
SA15 3DP**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/06/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Stradey Park House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	STRADEY PARK CARE HOMES LTD
Lleodd cofrestredig	8
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar y gofal a'r cymorth diogel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Caiff yr unigolion eu cefnogi gan staff medrus a phrofiadol, y maent wedi meithrin perthynas werthfawr â nhw. Mae'r bobl yn cael eu hannog i gael eu cynnwys cymaint â phosibl yn y penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn adlewyrchu'r bobl sy'n byw yno. Mae'r darparwr wrthi'n adnewyddu'r adeilad yn llwyr. Caiff gwiriadau cynnal a chadw o'r adeilad a'r offer eu cwblhau'n gyson.

Mae gan reolwr y gwasanaeth ymagwedd ymarferol, maent yn hygyrch ac yn cael eu parchu gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth ac mae'n cwblhau adroddiadau gyda champau gweithredu manwl i wella ansawdd, yn dilyn ei ymweliadau chwarterol.

Llesiant

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth a gânt. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn helpu'r bobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus am fod y staff yn eu cefnogi i ryngweithio â'i gilydd, eu cymuned leol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r staff yn parchu'r bobl a gwelsom lawer o ryngweithio cyfeillgar, dywedasant wrthym *"I love it, it's not like coming into work"* a *"we are one big family here"*. Galluogir y bobl i gyfathrebu yn eu harddull unigol eu hunain a gallant hefyd siarad â rhai o'r staff yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnant.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu rhag niwed gan fod prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Mae'r gweithwyr cymorth yn cael sesiynau sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran codi pryderon yn llawn.

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus ac yn fawr. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol fannau sydd ar gael i wneud pethau maen nhw'n eu mwynhau, er enghraifft gwyllo'r teledu, chwarae gemau bwrdd, gemau cyfrifiadurol a choginio i'w gilydd. Mae'r tiroedd yn hygyrch a gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan y bobl lais am eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ymweliadau Rheoliad 73 chwarterol. Caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn adroddiad gyda chynllun gweithredu clir a chaiff ei defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a gânt a gwelsom lawer o ryngweithio effeithiol rhwng y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Mae'r gweithwyr cymorth yn adnabod y bobl yn dda, yn deall eu hanghenion ac yn cyfathrebu'n effeithiol â nhw. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt a'r berthynas sydd ganddynt â'r holl staff. Mae'r gweithwyr cymorth yn frwdfrydig am eu rolau ac yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi, dywedodd un wrthym *"We love the residents and do all we can to make them happy"*.

Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu eu cynlluniau personol yn fanwl. Mae'r rheolwr hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr yr unigolion, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol allanol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol ac yn ddefnyddiol. Mae'r uwch-staff yn adolygu cynlluniau gyda'r bobl a'r gweithwyr cymorth yn rheolaidd fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn werth chweil. Wrth drafod cynlluniau personol dywedodd y gweithiwr cymorth wrthym, *"We make sure the little things are in the care plans because they are so important"*. Mae tystiolaeth dda yn gyson bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys. Mae'r nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gwblhawyd a disgrifiad byr o'r diwrnod o safbwynt y person.

Rheolir meddyginiaeth yn effeithiol ac mae systemau ar waith i gefnogi'r staff i roi meddyginiaethau rhagnodedig yn gywir.

Mae'r bobl yn mwynhau gweithgareddau yn y cartref ac yn eu cymuned leol. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn celf a chrefft, tasgau domestig, ymweld â'u siopau lleol, ymlacio yn y gerddi ac maent yn aelodau o glybiau chwaraeon lleol. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar ymwelwyr yn y gwasanaeth a gall y bobl gyfarfod â'u ffrindiau a'u teulu pryd bynnag y dymunant.

Mae'r gweithwyr cymorth yn canolbwyntio ar alluogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl a bod yn ymatebol i'r unigolion. Gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol a chyfeillgar yn ystod yr arolygiad. Mae llawer o'r gweithwyr cymorth wedi bod yn y gwasanaeth ers blynyddoedd ac yn gallu cyfathrebu â'r bobl yn eu ffordd benodol eu hunain ac yn Gymraeg neu Saesneg.

Yr Amgylchedd

Mae rheolwr y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion unigol. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd cymunedol i gymdeithasu, i wneud gweithgareddau neu i gael amser tawel ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus iawn drwy'r gwasanaeth cyfan. Mae ystafelloedd unigol yn hynod bersonol a gall y bobl eu haddurno fel y dymunant. Gwneir defnydd da o dir hygyrch ac mae'r bobl yn mwynhau defnyddio gardd gymunedol gerllaw.

Mae'r darparwr yn cwblhau gwaith adnewyddu ar yr adeilad cyfan. Mae'r holl ddrysau mewnol wedi'u newid i gydymffurfio â rheoliadau tân. Mae mwyafrif yr ystafelloedd gwely wedi'u hailaddurno ac maent yn edrych yn olau ac yn ffres. Dywedodd y gweithiwr cymorth wrthym *"It's really nice to see all the work on the building and their rooms look amazing"*.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bump, mae'n cael ei defnyddio'n helaeth, yn hygyrch ac yn ganolbwynt i'r bobl gymdeithasu. Mae'r gweithwyr cymorth yn hybu annibyniaeth ac yn annog y bobl i brynu bwyd a pharatoi eu prydau eu hunain. Mae'r bobl yn trafod ac yn cytuno ar eu bwydlenni eu hunain ac mae prydau amgen ar gael hefyd os yw'r bobl yn dymuno dewis rhywbeth gwahanol.

Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Caiff sylweddau a allai fod yn beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel. Mae profion y cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r arolygiadau diwethaf o'r rheoliadau tân wedi'u cwblhau. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra i'r unigolyn ac ar gael mewn argyfwng.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Caiff ymweliadau Rheoliad 73 eu cwblhau bob tri mis, ac mae'r adroddiad dilynol ar yr ymweliad yn dangos yr ymgynghorir â'r bobl a'r staff. Mae'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe-misol yn defnyddio adborth gan y bobl, eu cynrychiolwyr, a gwybodaeth o archwiliadau mewnol. Mae cynlluniau gweithredu yn nodi'n glir yr hyn sydd ei angen i wella'r gwasanaeth.

Mae'r rheolwr yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl ac yn eu hadnabod yn dda; gwelsom lawer o ryngweithio cadarnhaol rhyngddynt hwy a'r bobl. Mae gan y rheolwr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod dogfennaeth yn gyfredol ac o fudd i'r staff. Mae'r staff yn disgrifio'r rheolwr fel person hawdd mynd ato, agored a chefnogol. Dywedodd gweithwyr cymorth wrthym *"[Manager] is the best manager I've ever had"* a *"[Manager] is great, easy to talk to and helpful"*.

Mae'r gweithwyr cymorth yn cael eu goruchwyllo a'u gwerthuso'n gyson. Dangosodd trafodaethau â'r staff eu bod yn deall y trefniadau diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiâu allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, gwirio'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu gwerth chweil a hyfforddiant parhaus gorfodol, ac sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Mae mwyafrif y gweithwyr cymorth wedi ennill sgiliau drwy gymwysterau proffesiynol ac mae'r rhaglen sefydlu yn gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Mae nifer digonol o staff medrus i ddiwallu anghenion y bobl. Mae llawer o'r gweithwyr cymorth wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn. Maent wedi meithrin cydberthnasau da â'r bobl ac yn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion unigol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 11/08/2023